IFOR BACH (fl. 1158) - IFOR MEURIG yn y Brutiau, IFOR AP CADIFOR yn achau'r 16eg ganrif a'r 17eg ganrif - arglwydd Senghenydd

Enw: Ifor Bach
Priod: Nest ferch Gruffydd ap Rhys
Plentyn: Gwenllian ferch Ifor Bach
Plentyn: Gruffydd ab Ifor Bach
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arglwydd Senghenydd
Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Arthur John Richard

'arglwyddiaeth ddibynnol' ar arglwyddiaeth Morgannwg ac yn cynnwys yr ardal fynyddig yn ymestyn o Aberhonddu yn y gogledd, crib Cefn On yn y de, afon Taf yn y gorllewin, ac afon Rhymni yn y dwyrain.

Yn 1158 ymosododd ar Morgan ab Owain o Wynllwg a Chaerllion-ar-Wysg a'i ladd ef a'r 'bardd gorau,' Gwrgant ap Rhys. Cofir amdano yn arbennig oblegid ei ymosodiad sydyn ym mherfeddion nos ar gastell Caerdydd yn yr un flwyddyn, a mynd â William, iarll Gloucester, Hawys ei wraig, a'u mab Robert i'w amddiffynfeydd coediog ef ei hun, a gwrthod eu rhyddhau nes i William ddychwelyd y tiroedd a ladratasai oddi arno a rhoi iddo diroedd ychwanegol yn iawndal.

Priododd Nest, chwaer (medd ' Brut y Saeson') yr Arglwydd Rhys. Dilynwyd ef cyn 1170 gan ei fab Gruffydd.

Awdur

Arthur John Richard

Ffynonellau

Giraldi Cambrensis Opera (1861â€“91), vi, 63

' *Brut y Tywysogion*,' sub anno 1157

'Brut y Saeson,' sub anno 1175

The Myvyrian archaiology of Wales (Denbigh 1870), 682

'*Annales Margam*,' sub anno 1158

G. T. Clark, *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorgan pertinent* (1910), i, 159

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 507-8

E. L. Chappell, *Old Whitchurch the story of a Glamorgan parish* (Caerdydd 1945), 9, 17

A Book of Glamorganshires Antiquities, 1578 (1887) (ed. J. A. Corbett), 54-5, 107

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms(Llandovery 1846), i, 245

Llawysgrifau Ford (*Cardiff Manuscripts* 5, 6), 270, 491

Llawysgrif Tonn yn Llyfrgell Dinas Caerdydd (*Cardiff Manuscripts* 2, 136), 175, 216

Llawysgrif Wilkins (*Cardiff Manuscript* 3.464), 103

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Richard, A. J., (1953). IFOR BACH (fl. 1158) - IFOR MEURIG yn y Brutiau, IFOR AP CADIFOR yn achau'r 16eg ganrif a'r 17eg ganrif - arglwydd Senghenydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 25 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-IFOR-BAC-1158

Copïo i'r clipfwrdd

Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government